## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Cronfa Ffyniant Gyffredin 2025/26 yng Ngwynedd |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes<br>Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| **Swyddog perthnasol:** | Dylan Griffiths<br>Rheolwr Gwasanaeth Datblygu'r Economi,<br>Adran Economi a Chymuned |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 08 Ebrill 2025 |

### 1. Penderfyniad a Geisir

1.1 Cytuno i barhad trefn llywodraethu ranbarthol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG ar gyfer y flwyddyn bontio 2025/26 gan awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr - i gadarnhau'r trefniadau.

1.2 Cytuno i barhau trefniadau llywodraethu lleol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG yng Ngwynedd ar gyfer y flwyddyn bontio 2025/26

1.3 Cytuno fod yn ofynnol i bob cynllun yng Ngwynedd yn derbyn arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wireddu dwy egwyddor:

a) Fod ymdrech fwriadol i sicrhau fod arian SPF a'r budd yn deillio ohono yn elwa cymunedau a thrigolion ym mhob rhan o Wynedd

b) Fod ymdrech fwriadol i annog gweithgareddau (a sefydliadau) nad ydynt wedi derbyn arian yn flaenorol gael mynediad i gymorth.

1.4 Yn unol ag egwyddor Llywodraeth y DG fod cyllid 2025/26 y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn estyniad o'r cyfnod 2022/23 i 2024/25 sy'n pontio i drefn ariannu newydd; cytuno i esblygu ac addasu gweithgareddau o ymhlith prosiectau presennol a'u hymestyn ar gyfer y flwyddyn drosiannol.

1.5 Cytuno i ymrwymo hyd at £7,900,000 o ddyraniad 2025/26 Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG i'r 14 cynllun a restrir yn yr adroddiad.

1.6 O fewn y gyllideb £7,900,000, cytuno i barhad pedair cronfa (gyda chyfanswm cyllideb oddeutu £2.29 miliwn) i ddosbarthu symiau llai o arian Cronfa Ffyniant Gyffredin i fentrau a chymunedau'r sir gan awdurdodi parhad tair cronfa dan reolaeth Cyngor Gwynedd.

1.7 Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Economi a Chymuned, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr, i gadarnhau manylion y cynlluniau a'r cyfraniad ariannol mewn ymgynghoriad â Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd.

## 2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Sefydlwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y DG ar gyfer cyfnod o dair blynedd ariannol hyd at ddiwedd 2024/25. Sefydlwyd trefniadau llywodraethu ac ymrwymwyd arian i brosiectau yn unol â'r amserlen.

2.2 Mae Llywodraeth y DG wedi penderfynu parhau gyda'r Gronfa am flwyddyn arall (2025/26) felly mae angen i'r Cabinet gadarnhau'r trefniadau ar gyfer y flwyddyn ychwanegol a phenderfynu sut i ddefnyddio'r arian.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

3.1.1 Cyhoeddwyd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG (UK Shared Prosperity Fund - SPF) yn Ebrill 2022 ar gyfer y cyfnod hyd at Fawrth 2025. Mae'r Gronfa yn £2.6 biliwn gydag arian i'w ddyrannu i bob rhan o'r DG ar sail fformiwla.

3.1.2 Yn Lloegr mae'r arian wedi mynd yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol unigol. Yng Nghymru, roedd yn rhaid i ardaloedd lleol gydweithio a bod un 'awdurdod arweiniol' yn atebol am yr arian ar ran rhanbarth (Cyngor Gwynedd yn achos Gogledd Cymru). Mae mwy o wybodaeth cefndir yn adroddiad a gyflwynwyd i Gabinet 19 Gorffennaf 2022 (wele yma).

3.1.3 Cadarnhawyd yn Rhagfyr 2023 fod £126.46 miliwn wedi ei ddyrannu i Ogledd Cymru ar gyfer y cyfnod. Roedd £24.42 miliwn o'r dyraniad i Wynedd (yn cynnwys £2.94 miliwn dim ond ar gyfer gwella sgiliau rhifedd oedolion).

3.1.4 Er bod pwyslais ar gydweithio rhanbarthol yng nghyd-destun yr SPF roedd pob sir yng Ngogledd Cymru yn gytûn fod angen i ardaloedd elwa yn unol â gwerth eu dyraniad unigol ac mai mater i ardaloedd lleol oedd penderfynu ar ddefnydd eu dyraniad.

3.1.5 Sefydlwyd cytundeb cyfreithiol i reoli'r berthynas rhwng y siroedd, ymhob sir mae staff yn gyflogedig i roi'r Gronfa ar waith ac mae tîm ar y cyd yng Ngwynedd i ofalu am weinyddu'r arian. Mabwysiadwyd trefniadau llywodraethu a chyflawni'r Gronfa gan Gabinet 24 Ionawr 2023 (wele yma).

3.1.6 Yn ystod hanner gyntaf 2023 cynhaliwyd trefn ymgeisio agored / gystadleuol ar gyfer cynlluniau mwy o faint yn dymuno arian yn uniongyrchol o'r SPF. (Mae manylion y drefn y parhau i fod ar wefan y Cyngor, yma).

3.1.7 Ar 20 Gorffennaf 2023 (wele yma), dyma'r Cabinet - ar sail argymhellion gan Banel yn cynnwys Aelodau Cabinet a prif swyddogion y Cyngor, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid lleol - yn ymrwymo £21.35 miliwm o arian SPF Gwynedd i 39 o gynlluniau yn cynnwys sefydlu cronfeydd i ddosbarthu symiau llai o arian Cronfa Ffyniant Gyffredin i fentrau a chymunedau'r sir. Mae manylion yr holl gynlluniau ar wefan y Cyngor, yma.

3.1.8 Mae'r cyfnod cyllido presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025. Bydd unrhyw arian nad yw wedi ei wario erbyn hynny yn cael ei ddychwelyd i Lywodraeth y DG.

3.1.9 Yng Nghyllideb yr Hydref (30 Hydref 2024) dyma Llywodraeth y DG yn cyhoeddi bwriad i barhau â'r Gronfa gyda llai o arian (£900 miliwm) am flwyddyn bontio yn 2025/26 i ganiatáu amser ar gyfer diwygio'r drefn ariannu o Ebrill 2026.

3.1.10 Ar 13 Rhagfyr 2024 cyhoeddwyd y dyraniadau ar gyfer 2025/26 (wele yma). Mae £42.42 miliwn wedi ei ddyrannu i Ogledd Cymru ar gyfer 2025/26, sef oddeutu hanner gwariant 2024/25. Mae £8.19 miliwn wedi ei ddyrannu i Wynedd, gyda £7.90 miliwn ar gael ar gyfer cyflawni prosiectau.

3.1.11 Mae Llywodraeth y DG yn ystyried yr arian newydd yn:

- estyniad o gronfa 2022-25 i sicrhau sefydlogrwydd (er ar wahân at ddibenion cyllidebol ac adrodd);
- blwyddyn bontio sy'n rhoi sicrwydd wrth baratoi i newid y drefn ariannu o fewn y maes gwaith;
- barhad i'r dull a'r weinyddiaeth bresennol;
- barhad gweithgaredd presennol lle bo hynny'n briodol;
- fodd o alluogi swyddogion Llywodraeth y DG (gyda Llywodraeth Cymru) i ganolbwyntio ar gyllid yn y dyfodol ar ôl 2025/26.

3.1.12 Gan adlewyrchu'r uchod, mae Llywodraeth y DG yn rhagdybio y bydd yr 'awdurdodau arweiniol' presennol yn parhau. Maent hefyd wedi cadarnhau mai dim ond gwariant rhwng 01 Ebrill 2025 ac 31 Mawrth 2026 fydd yn gymwys i dderbyn arian a'u bod yn bwriadu i'r SPF ddod i ben bryd hynny.

3.2 <u>Rhesymeg a chyflwyniad dros argymell y penderfyniad</u>

3.2.1 Mae cyfyngiadau ymarferol ynghlwm â gwireddu blwyddyn bontio i'r SPF yn 2025/26. Yn bennaf, mae'r prinder amser i ddewis cynlluniau ac i'r cynlluniau hynny gyflawni yn creu risg o ran sicrhau'r defnydd gorau o'r arian tra'n gwneud yn siŵr fod arian yn cael ei wario a dim yn mynd yn ôl i Lundain.

*Llywodraethiant*

3.2.2 Gan fod amser yn brin a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dod i ben, ni fyddai'n rhesymegol newid nac addasu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru tu hwnt i'r hyn sydd yn angenrheidiol.

3.2.3 Mae argymhelliad 1.1 yn gofyn i barhau gyda'r drefn llywodraethu ranbarthol ar gyfer y flwyddyn bontio 2025/26, gan gynnwys fod Cyngor Gwynedd parhau'n 'awdurdod arweiniol' ar gyfer yr SPF yng Ngogledd Cymru. Mae rhai newidiadau i'r cytundeb presennol rhwng chwe sir Gogledd Cymru yn anorfod i adlewyrchu'r newid yng nghyfnod y rhaglen SPF a'r gyllideb, ac felly mae gofyn i'r Cabinet awdurdodi swyddogion i ymgymryd â'r gwaith.

3.2.4 Yn lleol (argymhelliad 1.2) mae'n rhesymegol parhau gyda'r drefn llywodraethu mabwysiadwyd yn flaenorol. Mae'n ofyn gan Lywodraeth y DG mai Awdurdod Lleol sydd yn penderfynu ar ddefnydd yr arian, a bod trefn o dderbyn mewnbwn rhanddeiliaid (sefydlwyd Grŵp Ymgynghorol ar gyfer SPF Gwynedd i'r perwyl yma).

3.2.5 Bydd parhau gyda Phanel o fewn y Cyngor, sy'n cynnwys Aelodau Cabinet (yn benodol yr Arweinydd, Is-Arweinydd, Aelod Cabinet Economi a Chymuned a'r Aelod Cabinet Cyllid) a phrif swyddogion (y Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Pennaeth Economi a Chymuned), i fonitro cyflawni'r SPF yn ystod 2025/26 ac i gynnig arweiniad, yn bwysig i sicrhau gellir rheoli'r Gronfa mewn modd hyblyg ac ymatebol.

3.2.6 I fod yn gyson â'r drefn benderfynu ar gyfer ymrwymo arian SPF 2022/23 - 2024/25 dymunir penderfyniad gan y Cabinet i ymrwymo dyraniad SPF 2025/26 Gwynedd.

*Dull gweithredu ar gyfer 2025/26*

3.2.7 Gan ystyried sylwadau gan y Grŵp Ymgynghorol o rhanddeiliad sirol, mae'r Cyngor wedi meddwl sut ellid gwneud y gorau o'r arian ychwanegol ar gyfer 2025/26 o fewn y cyfyngiadau sy'n deillio o'r diffyg amser i ddatblygu cynigion a'u gweithredu.

3.2.8 I sicrhau fod pob cynllun yn derbyn arian SPF 2025/26 yn cyflawni i bobl a chymunedau Gwynedd, mae dwy egwyddor y dymunir eu mabwysiadau i warantu fod budd yr SPF yn parhau i ledaenu yn y sir :

a) Fod <u>ymdrech fwriadol</u> i sicrhau fod arian SPF a'r budd yn deillio ohono yn elwa cymunedau a thrigolion ym mhob rhan o Wynedd.

b) Fod <u>ymdrech fwriadol</u> i annog gweithgareddau (a sefydliadau) nad ydynt wedi derbyn arian yn flaenorol gael mynediad i gymorth.

3.2.9 Mae'r Cyngor yn dymuno sicrhau drwy argymhelliad 1.3 fod bob prosiect yn ymgorffori'r egwyddorion yma yn eu dyluniad a'u gweithredu.

3.2.10 Yn ddelfrydol, byddai'r Cyngor a'r Grŵp Ymgynghorol wedi dymuno cynnal trefn ymgeisio lawn i ofyn am gynigion ar gyfer arian SPF 2025/26, ond ni ystyrir fod amser digonol i gynnal ymarferiad nac i ganiatáu cynlluniau newydd gael eu datblygu a'u gweithredu.

3.2.11 Yn yr un modd, nid oedd y Cyngor a'r Grŵp Ymgynghorol o'r farn y byddai dim ond rhoi cyfle i gynlluniau sydd eisoes yn weithredol i gyflwyno cynigion yn ddymunol nac yn dderbyniol, o ystyried yr egwyddorion craidd.

3.2.12 O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi comisiynu cynlluniau gyda phartneriaid ar sail themâu Llywodraeth y DG ar gyfer SPF 2025/26 gan ddefnyddio'r detholiad o gynlluniau ariannwyd yn 2022/23 i 2024/25 fel sail (argymhelliad 1.4).

3.2.13 Cydnabyddir bydd angen i gynlluniau sy'n gweithredu ar draws mwy nac un sir barhau i fod yn geisiadau unigol i berwyl gweinyddol. Er hyn, bydd yr un gofyn i gydweithio â chynlluniau eraill yn y sir o fewn yr un maes, a gofyn iddynt ymgorffori'r egwyddorion yn argymhelliad 1.3.

*Cynlluniau SPF Gwynedd 2025/26*

3.2.14 Er gwaetha'r cyfyngiadau ymarferol, roedd dymuniad i sicrhau fod cynlluniau 2025/26 yn ymgorffori gwersi o'r cyfnod blaenorol, yn esblygu eu gweithgaredd i adlewyrchu cyfleoedd neu anghenion newydd, ac yn cydlynu gweithgaredd o fewn meysydd gwaith i gynyddu'r budd.

3.2.15 Mae'r Cyngor wedi hwyluso dod a phartneriaid a rhanddeiliaid ynghyd ar sail y themâu mae Llywodraeth y DG wedi ei fabwysiadu ar gyfer yr SPF yn 2025/26, sef:

- Sgiliau
- Cyflogadwyedd
- Cefnogaeth i fusnes
- Llefydd Llewyrchus
- Cymunedau Iach, Diogel a Chynhwysol

3.2.16 Gan adlewyrchu'r egwyddorion sydd wedi eu sefydlu, roedd ffocws ar sefydliadau a rhanddeiliaid o fewn y meysydd yn gwasanaethu Gwynedd yn ei gyfanrwydd neu ran helaeth ohono.

3.2.17 Yn yr un modd, roedd sylw i geisio sicrhau fod cronfeydd grant i ddosbarthu symiau llai o arian SPF i helpu cymunedau, mentrau a sefydliadau gwirfoddol yn y sir yn parhau i fod ar gael.

3.2.18 Mae'r pecyn o gynlluniau sydd yn cael eu hargymell (argymhellion 1.5 a 1.6) yn cynnwys 14 prosiect:

- Mae saith cynllun yn geisiadau i barhau cynlluniau yn gweithredu ar draws mwy nac un sir. Mae'r ceisiadau yma yn gofyn am £1.49 miliwm (18.9%) o'r SPF ar gael i Wynedd yn 2025/26. (Mae parhad y ceisiadau yma yn amodol ar gefnogaeth siroedd eraill perthnasol).
- Bydd chwe chynllun yn weithredol yng Ngwynedd yn unig. Mae'r argymhelliad yn gofyn i roi £6.41 miliwm (81.1%) o'r arian SPF ar gael i'r cynlluniau hyn. <u>Mae bob cynllun yn cynnwys darpariaeth ar draws Gwynedd</u>.
- Mae'r dosbarthiad ar draws themâu'r SPF fel a ganlyn:

| <u>Thema</u> | <u>Nifer cynlluniau</u> | <u>Amcangyfrif SPF</u> |
|---|---|---|
| Sgiliau | 2 (14.3%) | £697,000(8.8%) |
| Cyflogadwyedd | 1 (7.1%) | £1,069,000(13.5%) |
| Cefnogaeth i fusnes | 5 (35.7%) | £1,428,000 (18.1%) |
| Llefydd Llewyrchus | 2 (14.3%) | £ 2,179,000 (27.6%) |
| Cymunedau Iach, ayyb | 4 (28.6%) | £ 2,528,000 (32.0%) |
| <u>Cyfanswm</u> | <u>14</u> | <u>£7,900,000</u> |

- O fewn y cynlluniau gwerth £7.9 miliwn mae pedair Cronfa fydd yn dosbarthu £2.29 miliwn o'r cyfanswm ar ffurf grantiau llai i gymunedau, mentrau a sefydliadau gwirfoddol. Bydd 28.9% o'r arian SPF ar gael i'w ddosbarthu.

3.2.19 Mae'r cynlluniau a argymhellir yn adeiladu ar yr hyn sydd wedi ei ddysgu o wireddu'r SPF yng Ngwynedd hyd yma, yn cyfarch yr egwyddorion sydd wedi eu sefydlu, ac yn cynnig cydbwysedd priodol o weithgaredd ar draws y themâu a gweithio yn sirol ac ar draws siroedd pan yn fanteisiol.

3.2.20 Mae amlinelliad o'r cynlluniau unigol yn Atodiad 1, ond yn gryno:

<u>THEMA: Sgiliau</u> <u>£697,000</u>

1. Cynllun cefnogaeth i bobl ifanc mewn addysg neu hyfforddiant*
   (Grŵp Llandrillo-Menai)
2. Cynllun Sgiliau i'r gweithlu a busnesau *
   (Grŵp Llandrillo-Menai)

<u>THEMA: Cyflogadwyedd</u> <u>£1,069,000</u>

3. Pecyn cefnogi pobl i gyflawni eu potensial yn y byd gwaith
   (Cyngor Gwynedd a phartneriaid)

<u>THEMA: Cefnogaeth i fusnes</u> <u>£1,428,000</u>

4. Sicrhau budd o Gynllun Twf Gogledd Cymru *
   (Uchelgais Gogledd Cymru)
5. Cymorth arbenigol i sefydlu mentrau cymdeithasol a mentrau ym mherchnogaeth eu gweithwyr *
   (Cwmpas)
6. Hwb Mentergarwch Gwynedd a Môn*
   (Menter Môn)
7. Pecyn cymorth i elwa o arbenigedd y Brifysgol*
   (Prifysgol Bangor)
8. **Pecyn cefnogaeth a chronfa i fentrau Gwynedd**
   (Cyngor Gwynedd a phartneriaid)

<u>THEMA: Llefydd Llewyrchus</u> <u>£2,179,000</u>

9. Pecyn Llefydd Llewyrchus Ardal Ni
   (Cyngor Gwynedd a phartneriaid)
10. **Cronfa Adfywio Ardal Ni**
    (Cyngor Gwynedd a phartneriaid)

THEMA: Cymunedau Iach, Diogel a Chynhwysol £2,528,000

11. Pecyn datblygu gwydnwch cymunedol
(Cyngor Gwynedd a phartneriaid)

12. **Diwyllesiant** - pecyn diwylliant, threftadaeth ac iechyd
(Cyngor Gwynedd a phartneriaid)

13. **Cronfa Sector Wirfoddol**
(Mantell Gwynedd)

14. Cymunedau Actif*
(Gogledd Cymru Actif)

* Prosiectau yn gweithredu ar draws mwy nac un sir
**Prosiect yn cynnwys grantiau i'w ddosbarthu i eraill**

3.2.21 Mae manylion terfynol y cynlluniau unigol yn parhau i gael eu datblygu, felly dymunir awdurdodi swyddogion (argymhelliad 1.7) i gadarnhau'r manylion mewn ymgynghoriad â'r Panel sydd wedi ei sefydlu o fewn y Cyngor i fonitro'r SPF yng Ngwynedd.

3.3 Camau nesaf

3.3.1 Bydd manylion terfynol y cynlluniau yn cael eu gwirio wrth i'r manylion ddod i law, ac yna cyfarwyddyd i ddarparu llythyrau cynnig yn cael ei ryddhau.

3.3.2 Gall gynlluniau gychwyn yn y cyfamser o'r gyntaf o Ebrill, ar risg yr ymgeisydd a'u partneriaid.

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol.**

4.1 Prif Swyddog Cyllid

"Cadarnhaf fod trefn llywodraethu a gweithredu cadarn mewn lle er mwyn gwarchod buddiannau'r Cyngor, gan gynnwys rôl y Cyngor fel awdurdod arweiniol ar gyfer rhanbarth gogledd Cymru. Yn sgil yr estyniad ar gyfer y flwyddyn bontio 2025/26, priodol yw parhau gyda'r trefniadau sydd eisoes yn bodoli. Cadarnhaf gywirdeb y dyraniadau a nodir yn rhan 3.1.10 o'r adroddiad, a byddwn yn cyd-weithio'n agos gyda'r swyddogion o'r Adran Economi a Chymuned gan sicrhau gweithrediad y cynlluniau o fewn y dyraniad. Rwyf felly yn cefnogi'r penderfyniadau a geisir."

4.2 Swyddog Monitro

"Mae'r argymhellion yn deillio o natur a chyfnod yr estyniad i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Gan ystyried y ffenest fyr sydd ar gael ar gyfer y Cyngor a'r rhanbarth, mae'n rhesymegol i estyn y trefniadau cyfredol os am gyflawni. Mae'r argymhellion o ran y cronfeydd a dosraniad yn rhoi cyfle i'r Cabinet ystyried a chymeradwyo yr hyn a gynigir, gan dderbyn hefyd y bydd angen gwaith mireinio union fanylion y cynlluniau wrth symud i greu cynigion fydd yn cyfarch gofynion y cynllun a'r amserlen."

**Rhestr Atodiadau:**

1. Amlinelliad o gynlluniau SPF 2025/26

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**

1. Eitem Cabinet 19 Gorffennaf 2022: 'Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG'
   https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/ielistdocuments.aspx?cid=133&mid=4696&ver=4&

2. Eitem Cabinet 24 Ionawr 2023: 'Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG – trefniadau llywodraethau a gweithredu'
   https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/ielistdocuments.aspx?cid=133&mid=4839&ver=4&

3. Eitem Cabinet 20 Gorffennaf 2023: 'Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG – ymrwymiadau o ddyraniad Gwynedd'
   https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/ielistdocuments.aspx?cid=133&mid=5013&ver=4&